**Rhif: 53761**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Gweithredu Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025:

Newidiadau i'r gofynion mewn perthynas â datganiadau blynyddol darparwyr gwasanaethau a chanslo cofrestriad darparwr gwasanaeth

13 Ionawr 2026

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron xxxx ISBN Digidol

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch newidiadau i'r gofynion mewn perthynas â datganiadau blynyddol darparwyr gwasanaethau a chanslo cofrestriad darparwyr gwasanaethau.

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud â rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, fel y'i diwygiwyd gan Ran 1 Pennod 2 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025.

Roedd yn gofyn am eich barn ar gynigion ar gyfer gwneud rheoliadau i:

- ragnodi'r terfyn amser ar gyfer darparwr gwasanaethau i gyhoeddi datganiad blynyddol ar ei wefan
- galluogi hysbysiad cosb i gael ei gyflwyno am y drosedd o fethu â chyhoeddi datganiad blynyddol
- nodi'r wybodaeth sydd ei hangen pan fydd darparwr gwasanaethau yn gwneud cais i ganslo ei gofrestriad

## Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

Yr Is-adran Galluogi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: ymgynghoriadgofalcymdeithasol@llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd: Proposed changes to the regulation of social care services | GOV.WALES

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir cael gafael arnynt ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r dogfennau ymgynghori: Cynnig newidiadau i drefniadau rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol | LLYW.CYMRU

# Cynnwys

Cynnwys .... 3
Cefndir .... 4
Gweithredu .... 4
Yr ymgynghoriad .... 4
Ymatebion i’r ymgynghoriad .... 5
Terfyn amser ar gyfer darparwr gwasanaethau i gyhoeddi datganiad blynyddol ar ei wefan .... 6
Galluogi hysbysiad cosb i gael ei gyflwyno am y drosedd o fethu â chyhoeddi datganiad blynyddol .... 8
Gwybodaeth i'w darparu fel rhan o gais darparwr gwasanaethau i ganslo ei gofrestriad .... 11
Cwestiynau eraill .... 13
Y camau nesaf .... 19
Atodiad A - Rhestr o'r ymatebwyr .... 20

## Cefndir

Cafodd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") y Cydsyniad Brenhinol ar 18 Ionawr 2016. Diwygiodd y drefn reoleiddio ac arolygu ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru. Nod Deddf 2016 yw darparu mwy o dryloywder a chymaroldeb ledled gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru, ail-gydbwyso'r atebolrwydd yn y system fel bod asiantaethau neu unigolion priodol yn cael eu dwyn i gyfrif o dan y gyfraith; a symud y tu hwnt i ddull gweithredu sy'n seiliedig ar gydymffurfio tuag at un sy'n adlewyrchu ansawdd darpariaeth. Mae'r system hon o reoleiddio gwasanaethau, a sefydlwyd o dan Ddeddf 2016, wedi bod yn weithredol ers i ddarparwyr perthnasol ddechrau ailgofrestru eu gwasanaethau gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn 2018.

Derbyniodd Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 ("Deddf 2025") Gydsyniad Brenhinol ar 24 Mawrth 2025, ac mae'n gwneud nifer fach o ddiwygiadau i Ddeddf 2016 mewn perthynas â gwasanaeth gofal cymdeithasol, er mwyn helpu'r fframwaith rheoleiddio i weithredu'n fwy effeithiol (gweler Rhan 1, Pennod 2).

Mae gwefan Cyfraith Cymru yn darparu trosolwg o Ddeddf 2025 a Deddf 2016, a'u datblygiad. Mae hyn yn cynnwys dolenni i'r ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth sylfaenol, a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2022, a Memorandwm Esboniadol sy'n cynnig esboniad manwl o'r newidiadau deddfwriaethol a wnaed gan Ddeddf 2025, ynghyd ag asesiad o'r effeithiau rheoleiddiol ac effeithiau eraill a nodwyd.

## Gweithredu

Er mwyn cynorthwyo'r gwaith o weithredu'r diwygiadau a wnaed i Ddeddf 2016 drwy Ddeddf 2025, mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar y bwriad i arfer pwerau gwneud rheoliadau er mwyn:

- rhagnodi'r terfyn amser ar gyfer darparwr gwasanaethau i gyhoeddi datganiad blynyddol ar ei wefan
- galluogi hysbysiad cosb i gael ei gyflwyno am y drosedd o fethu â chyhoeddi datganiad blynyddol
- nodi'r wybodaeth sydd ei hangen pan fydd darparwr gwasanaethau yn gwneud cais i ganslo ei gofrestriad o dan Ddeddf 2016.

Bwriedir i'r rheoliadau hyn ddod i rym o 1 Ebrill 2026.

## Yr ymgynghoriad

Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos rhwng 16 Gorffennaf ac 8 Hydref 2025. Estynnwyd gwahoddiad i fynegi barn drwy ffurflen ar-lein, drwy e-bost neu drwy'r post. Anfonwyd hysbysiad o'r ymgynghoriad drwy e-bost at ystod o randdeiliaid sydd

â diddordeb yn y cynigion a gyhoeddodd y Gweinidog ar ddechrau'r ymgynghoriad drwy Ddatganiad Ysgrifenedig.

## Ymatebion i’r ymgynghoriad

Cafodd Llywodraeth Cymru 20 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Yn fras, cyflwynwyd y rhain gan gymysgedd o ddarparwyr gwasanaethau, awdurdodau lleol unigol a sefydliadau ymbarél sy'n cynrychioli buddiannau llywodraeth leol.

Ni wnaeth pawb ymateb i holl benodau’r ymgynghoriad.

## Terfyn amser ar gyfer darparwr gwasanaethau i gyhoeddi datganiad blynyddol ar ei wefan

### Cwestiwn 1. Ydych chi'n cytuno â'r terfyn amser arfaethedig o 91 diwrnod ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol (30 Mehefin) ar gyfer darparwyr gwasanaethau i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar eu gwefan?

Mynegodd mwyafrif yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn gefnogaeth gyffredinol i'r terfyn amser arfaethedig o 91 diwrnod, gan ei gydnabod fel terfyn amser rhesymol a chymesur ar gyfer darparwyr gwasanaethau er mwyn iddynt baratoi, cyflwyno a chyhoeddi eu datganiadau blynyddol. Nododd sawl ymatebydd y byddai cysoni'r dyddiad cyhoeddi â chyfnod penodol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol yn helpu i safoni ymarfer ar draws y sector.

Fodd bynnag, rhybuddiodd sawl rhanddeiliad y gallai'r terfyn o 91 diwrnod beri heriau yn ystod cyfnodau o alw mawr o ran gwaith; pe bai anawsterau technolegol annisgwyl; lle darperir sawl gwasanaeth rheoleiddiedig; neu pan fydd terfynau amser adrodd statudol eraill yn cyd-daro. Awgrymodd yr ymatebwyr hyn y dylid ystyried darpariaethau hyblygrwydd neu rai wrth gefn, megis caniatáu estyniadau o dan amgylchiadau eithriadol.

Roedd rhywfaint o bryder na fydd gan bob darparwr yr un lefel o seilwaith digidol, mynediad at gymorth technegol neu allu gweinyddol i allu cyhoeddi eu datganiadau o fewn y terfyn amser arfaethedig. Dywedodd un ymatebydd nad oes ganddo fynediad i'w wefan ei hun ac y gall fod yn anodd i'w ddarparwr gwe gyhoeddi ei ddatganiad, yn ogystal â chymryd gormod o amser.

Cododd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch sut y byddai'r datganiadau blynyddol PDF sy'n cael eu cynhyrchu ar hyn o bryd gan system ar-lein AGC yn cydymffurfio â safonau hygyrchedd – yn enwedig i ddefnyddwyr ag amhariad ar y golwg neu lythrennedd digidol cyfyngedig. Dylid ystyried fersiynau cwbl hygyrch neu grynodebau hawdd eu defnyddio i gyd-fynd â'r datganiadau cyhoeddedig. Gwelwyd y gallai ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gyhoeddi eu datganiadau eu hunain leihau tryloywder, gan na fyddent bellach ar gael yn ganolog ar wefan AGC.

Nodwyd bod y dyddiad cau arfaethedig yn fyrrach na'r rhai a osodwyd gan Dŷ'r Cwmnïau (9 mis) a'r Comisiwn Elusennau (10 mis), gydag ychydig o ymatebwyr-yn dadlau y byddai cyfnod hirach yn darparu'n well ar gyfer prosesau llywodraethu mewnol ac yn sicrhau cywirdeb a chyflawnrwydd y data sy'n cael ei gyhoeddi. Argymhellodd eraill y dylid cyhoeddi canllawiau er mwyn helpu darparwyr, yn enwedig darparwyr llai, i fodloni'r terfyn amser, gan gynnwys templedi, enghreifftiau ac eglurhad o ystyr cydymffurfio.

Roedd cytundeb eang ynglŷn â chael dyddiad cau diffiniedig ar gyfer cyhoeddi datganiadau. Roedd rhai ymatebion yn adlewyrchu awydd am gefnogaeth ymarferol ac ystyried realiti gweithredol er mwyn sicrhau gweithrediad llwyddiannus.

**Dadansoddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae darparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig yn gyfrifol am roi trefniadau ar waith i fodloni gofynion y fframwaith rheoleiddio fel y nodir mewn rheoliadau o dan Ddeddf

2016. Y pwrpas yma yw darparu eglurder a chysondeb o ran y terfyn amser ar gyfer darparwyr i gyhoeddi eu datganiadau blynyddol. Mae'r terfyn amser o 91 diwrnod o ddiwedd y flwyddyn ariannol y mae'r datganiad blynyddol yn ymwneud â hi yn cael ei ystyried yn rhesymol ac yn gymesur o ran y gofyniad y mae'n ei osod ar ddarparwyr gwasanaethau ac yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd mewn da bryd. Nid oes unrhyw gwmpas yn y rheoliadau i gynnwys hyblygrwydd o ran y dyddiad cyhoeddi. Bydd yr arolygiaeth yn defnyddio dull cymesur o orfodi pan fo amgylchiadau eithriadol yn codi.

Mae'r gofyniad i ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig lunio datganiad blynyddol a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru wedi'i nodi yn Neddf 2016. Mae'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno datganiad blynyddol wedi'i ragnodi yn Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017 (fel y'u diwygiwyd). Mae o fewn **56 diwrnod i ddiwedd y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi** (h.y. **26 Mai)**. Mae'r gofyniad i ddarparwyr gyhoeddi eu datganiadau blynyddol eu hunain ar eu gwefan eu hunain wedi'i nodi yn Neddf 2025. Mae'r arolygiaeth wedi bod yn codi ymwybyddiaeth o'r gofyniad arfaethedig ers peth amser. Mae'r rheoliadau hyn yn ymdrin â'r amserlen gyhoeddi.

Rydym wedi nodi'r adborth am gydymffurfio â safonau hygyrchedd. Mae AGC yn mynd i'r afael â'r mater hwn a bydd yn diwygio ei system ar-lein a'i chanllawiau gweithredol yn unol â hynny. Nid yw'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr lunio a chyhoeddi crynodebau hawdd eu defnyddio ochr yn ochr â'u datganiadau blynyddol, ond gallant wneud hynny os dymunant. Yn fwy cyffredinol, mae'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf 2016 yn nodi y dylai darparwyr gwasanaethau sicrhau bod gwybodaeth a chymorth perthnasol ar gael i unigolion er mwyn iddynt ddeall y dewisiadau sydd ar gael, a bod hyn ar gael mewn ffurf sy'n hygyrch i'r unigolyn ac sy'n addas i'w oedran a'i lefel o ddealltwriaeth.

Nid ydym yn bwriadu diwygio'r terfyn amser arfaethedig mewn ymateb i'r adborth ar y cwestiwn ymgynghori hwn.

## Galluogi hysbysiad cosb i gael ei gyflwyno am y drosedd o fethu â chyhoeddi datganiad blynyddol

**Cwestiwn 2. Ydych chi'n cytuno y dylai Gweinidogion Cymru (AGC) gael yr opsiwn o roi hysbysiad cosb i ddarparwr gwasanaethau os ydynt wedi'u bodloni bod y darparwr wedi methu â chyhoeddi datganiad blynyddol ar ei wefan o fewn y terfyn amser rhagnodedig?**

Roedd cefnogaeth eang ymhlith ymatebwyr i'r cynnig y dylai Gweinidogion Cymru, drwy Arolygiaeth Gofal Cymru, gael yr opsiwn o roi hysbysiad cosb i ddarparwyr gwasanaethau sydd wedi methu â chyhoeddi eu datganiad blynyddol o fewn y terfyn amser rhagnodedig. Roedd llawer yn gweld hyn fel dull gorfodi cymesur ac ymarferol sy'n hyrwyddo tryloywder, atebolrwydd, cysondeb a chydymffurfiaeth â rhwymedigaethau statudol. Roedd cydnabyddiaeth eang y gallai mesur o'r fath helpu i atal darparwyr rhag diystyru eu cyfrifoldebau a sicrhau bod gwybodaeth bwysig ar gael i'r cyhoedd yn brydlon.

Fodd bynnag, er bod pobl yn derbyn yr egwyddor o orfodi yn gyffredinol, pwysleisiodd ymatebwyr yr angen am ddull teg a graddedig. Roedd sawl un o blaid proses strwythuredig sy'n dechrau gyda rhybudd ac sy'n cynnig cymorth ac arweiniad cyn gosod unrhyw gosb. Roedd ffafriaeth ar gyfer cosbau anariannol yn y cam cychwynnol, gyda sancsiynau ariannol yn cael eu neilltuo ar gyfer achosion parhaus neu ddifrifol o dorri rheolau. Hefyd, tynnwyd sylw at bwysigrwydd proses apelio glir a hygyrch, gyda galwadau ar AGC i gyhoeddi canllawiau manwl ar sut y gall darparwyr herio hysbysiad cosb.

Codwyd pryderon am heriau ymarferol gweithredu, yn enwedig i ddarparwyr llai a'r rhai sy'n gweithio o fewn awdurdodau lleol. Roedd ymatebwyr yn annog AGC i arfer disgresiwn ac ystyried amgylchiadau lliniarol. Roedd llawer o'r farn y gallai cosbi darparwyr sydd eisoes dan straen darfu ar wasanaethau neu achosi i rai fethu a thanseilio rheoleiddio cydweithredol.

Cynigiodd rhai ymatebwyr fesurau amgen neu gyflenwol. Roedd y rhain yn cynnwys mabwysiadu model cymorth yn gyntaf, cynnig cymorth technegol i ddarparwyr a chyflwyno cofrestr diffyg cydymffurfio cyhoeddus i annog atebolrwydd enw da. Awgrymodd eraill y gallai fod yn ddigonol i ddarparwyr gyfeirio at wefan AGC yn hytrach na chyhoeddi'r datganiad ar eu gwefan eu hunain, yn enwedig lle mae capasiti digidol yn gyfyngedig. Nodwyd yr angen i AGC ddarparu fersiwn PDF hygyrch o'r datganiad hefyd er mwyn hwyluso cydymffurfiaeth.

Yn gryno, er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi cyflwyno hysbysiadau cosb fel dull o sicrhau cydymffurfiaeth, fe wnaethant bwysleisio pwysigrwydd cymesuredd, hyblygrwydd a thryloywder. Roedd y cynnig yn cael ei weld fel cam cadarnhaol tuag at gryfhau atebolrwydd, cyn belled â'i fod yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cydnabod y realiti gweithredol sy'n wynebu darparwyr gwasanaethau ac yn cynnal ymddiriedaeth yn y fframwaith rheoleiddio.

**Dadansoddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae AGC yn mabwysiadu dull teg a chymesur o orfodi fel y nodir yn ei chanllawiau gweithredol a gyhoeddwyd - Polisi ar sicrhau gwelliant a gorfodi (dogfen HTML) | Arolygiaeth Gofal Cymru

Nid yw'r arolygiaeth wedi arfer ei phwerau eto mewn perthynas â'r cynllun hysbysiadau cosb. Pan fydd y cynllun hysbysiad cosb ar waith, bydd yr arolygiaeth yn diwygio ei chanllawiau gweithredol yn unol â hynny.

Nid ydym yn bwriadu diwygio'r cynnig mewn ymateb i'r adborth ar y cwestiwn ymgynghori hwn.

**Cwestiwn 3. Ydych chi'n cytuno bod swm arfaethedig y gosb – lefel 4 ar y raddfa safonol, £2,500 ar hyn o bryd – yn gymesur?**

Cafwyd ymatebion amrywiol iawn i'r cwestiwn hwn. Roedd sawl rhanddeiliad yn cytuno bod y gosb lefel 4 (£2,500) yn briodol ac yn gymesur, yn enwedig o ystyried difrifoldeb diffyg cydymffurfio a'r effaith bosibl ar unigolion yr effeithir arnynt. Cydnabuwyd bod y swm yn cyd-fynd â'r gosb bresennol am fethu â chyflwyno datganiad blynyddol a throseddau tebyg.

Er hynny, roedd sawl cyfrannwr yn poeni am gymesuredd y gosb mewn cyd-destunau penodol. Roedd rhai o'r farn y gallai £2,500 fod yn ormodol ac yn anghymesur i sefydliadau llai neu ddarparwyr gwasanaethau unigol.

Awgrymodd ychydig o ymatebwyr y gallai dull haenog neu fwy hyblyg fod yn fwy teg. Cynigiodd ymatebydd arall 'lefelau tor rheolau haenog: dull graddol sy'n dechrau gyda chosbau lefel is ac yn uwchgyfeirio dim ond am achosion o ddiffyg cydymffurfio hir neu ddifrifol.’

Roedd eraill yn cwestiynu a fyddai'r gosb yn ataliad effeithiol yn ymarferol, gan nodi bod dulliau gorfodi ac eglurder am sut y byddai cosbau’n cael eu cymhwyso yr un mor bwysig. Roedd galwadau hefyd am arweiniad pellach a thryloywder i sicrhau cysondeb o ran sut y mae cosbau’n cael eu rhoi. Awgrymwyd y gellid 'ailfuddsoddi'r dirwyon mewn grantiau seilwaith digidol er mwyn helpu i wella systemau.’

Yn gryno, er bod cefnogaeth gyffredinol i'r egwyddor o gosb ariannol i annog cydymffurfiaeth, cymysg oedd y farn a oedd y swm arfaethedig yn gymesur ym mhob sefyllfa. Tynnodd ymatebwyr sylw at yr angen am degwch, eglurder a hyblygrwydd wrth gyflwyno cosbau, ac y gallai model cosb graddol neu haenog helpu i fynd i'r afael â'r pryderon hyn wrth gadw effaith ataliol gorfodi.

**Dadansoddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru:**

Y gosb arfaethedig o £2,500 (lefel 4) yw'r swm cosb isaf a ragnodir yn Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2017 (fel y'u diwygiwyd). Mae'n cyfateb i'r gosb am fethu â chyflwyno datganiad blynyddol. Bwriad lefel y gosb yw adlewyrchu difrifoldeb diffyg cydymffurfio.

Bydd yr arolygiaeth yn mabwysiadu agwedd deg a chymesur at orfodi fel y nodir yn ei chanllawiau gweithredol a gyhoeddwyd Polisi ar sicrhau gwelliant a gorfodi (dogfen HTML) | Arolygiaeth Gofal Cymru

Pan fydd y cynllun hysbysiad cosb yn cael ei weithredu, bydd ei effeithiolrwydd yn cael ei fonitro yn ymarferol. Rhagwelir y bydd y cynllun hysbysiad cosb yn offeryn gorfodi effeithiol i'r rheoleiddiwr.

Mae dirwyon sy'n cael eu casglu gan gyrff rheoleiddio yn cael eu trosglwyddo i Gronfa Gyfunol Llywodraeth y DU. Nid oes darpariaeth ar gyfer neilltuo neu ailfuddsoddi dirwyon yn uniongyrchol mewn grantiau cymorth sector neu seilwaith digidol.

Nid ydym yn bwriadu diwygio swm y gosb arfaethedig mewn ymateb i'r adborth ar y cwestiwn ymgynghori hwn.

## Gwybodaeth i'w darparu fel rhan o gais darparwr gwasanaethau i ganslo ei gofrestriad

### Cwestiwn 4. Ydych chi'n cytuno bod yr wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer cais i ganslo cofrestriad darparwr gwasanaethau yn berthnasol ac yn gymesur?

Cytunodd ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn fras bod y gofynion gwybodaeth arfaethedig wrth wneud cais i ganslo cofrestriad darparwr gwasanaethau yn berthnasol ac yn gymesur. Roedd consensws cryf bod y gofynion hyn yn hanfodol i sicrhau bod prosesau cau gwasanaethau yn cael eu rheoli'n ddiogel, yn dryloyw a gyda sylw dyledus i les unigolion sy'n derbyn gofal.

Tynnodd sawl ymateb sylw at bwysigrwydd sicrhau bod cynlluniau manwl ar gyfer trosglwyddiadau preswylwyr a pharhad y gweithlu i amddiffyn unigolion agored i niwed, cynnal lefelau staffio digonol a chaniatáu i awdurdodau lleol a byrddau iechyd – fel cynllunwyr gwasanaethau a chomisiynwyr – ymyrryd lle bo angen. Pwysleisiodd ymatebwyr hefyd yr angen am gyfathrebu clir ag unigolion a theuluoedd.

Cododd nifer o ymatebwyr bryderon am effaith systemig ehangach cau gwasanaethau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig neu ardaloedd heb wasanaethau digonol.

Roedd cefnogaeth hefyd i ddefnyddio gwybodaeth o achosion o ganslo yn y gorffennol i lywio penderfyniadau cofrestru yn y dyfodol.

Er bod y rhan fwyaf o'r adborth yn gefnogol, roedd ychydig o'r ymatebwyr yn pryderu bod yr amgylchedd rheoleiddio yn dod yn fwyfwy beichus, ac y byddai hyn o bosib yn atal darparwyr rhag aros yn y sector. Serch hynny, roeddent yn cydnabod yr angen am fesurau diogelu priodol i amddiffyn defnyddwyr gwasanaethau.

Yn olaf, argymhellodd rhai ymatebwyr y dylid datblygu templedi a chanllawiau er mwyn helpu darparwyr i fodloni'r gofynion newydd. Byddai hyn yn helpu i sicrhau cysondeb ac eglurder mewn cyflwyniadau, yn enwedig mewn sefyllfaoedd sensitif o ran amser.

Yn gryno, mae'r ymatebion yn adlewyrchu cymeradwyaeth gref i'r gofynion gwybodaeth arfaethedig. Maent yn cael eu hystyried fel cam cymesur ac angenrheidiol i sicrhau bod prosesau cau gwasanaethau yn cael eu cynnal yn gyfrifol, gyda ffocws clir ar amddiffyn unigolion, cefnogi teuluoedd a chynnal uniondeb y system ofal.

**Dadansoddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru:**

Bydd yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau sy'n dymuno canslo eu cofrestriad wneud hynny gan ddefnyddio eu cyfrif 'AGC Ar-lein'. Bydd y ffurflen ar-lein yn hyrwyddo cysondeb drwy nodi'r wybodaeth sy'n ofynnol fel rhan o'r cais. Bydd canllawiau gweithredol yr arolygiaeth yn cael eu diwygio yn unol â hynny.

Mae'r arolygiaeth yn ystyried ystod o wybodaeth, gan gynnwys hanes gwasanaeth darparwr gwasanaethau, wrth benderfynu ar geisiadau i gofrestru neu amrywio

cofrestriad. Mae canllawiau gweithredol yr arolygiaeth yn nodi hyn.

Mae'r Cod Ymarfer newydd ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau, mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig a osodwyd ar 1 Rhagfyr ac y disgwylir iddo ddod i rym ar 28 Chwefror 2026, yn gosod gofynion ar gomisiynwyr awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG. Mae wedi'i ategu gan ystod o dempledi a gwybodaeth arall.

Nid ydym yn bwriadu diwygio'r gofynion gwybodaeth arfaethedig mewn ymateb i'r adborth ar y cwestiwn ymgynghori hwn.

## Cwestiynau eraill

**Cwestiwn 5. Ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol, gan gynnwys ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig?**

Fe wnaeth ymatebwyr i'r cwestiwn hwn gyflwyno ystod o safbwyntiau am effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynigion, yn enwedig mewn perthynas ag unigolion a grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig. Ar y cyfan, roedd yr adborth yn gefnogol iawn i'r cynigion, gyda llawer yn tynnu sylw at fanteision posibl mwy o dryloywder, atebolrwydd a mynediad at wybodaeth gyfredol debyg am wasanaethau gofal cymdeithasol rheoleiddiedig.

Nododd rhai ymatebwyr y byddai cyhoeddi datganiadau blynyddol yn grymuso defnyddwyr gwasanaethau – gan gynnwys y rhai o grwpiau gwarchodedig – i wneud penderfyniadau mwy gwybodus am eu gofal.

Yn unol â nodau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ystyriwyd bod y cynigion yn symud y tu hwnt i gydymffurfiaeth sylfaenol ac yn adlewyrchu ansawdd y ddarpariaeth ofal. Cyfeiriwyd hefyd at wella hyder y cyhoedd, mwy o ymdeimlad o annibyniaeth a dewis i unigolion a chysondeb ar draws gwasanaethau fel canlyniadau tebygol.

Ar ben hynny, nodwyd bod y defnydd diofyn o'r Saesneg ac absenoldeb crynodebau mewn iaith glir yn anfanteision posibl i siaradwyr Cymraeg, lleiafrifoedd ieithyddol a'r rhai sydd â lefelau llythrennedd is.

Er bod rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai'r cynigion yn cael effaith niwtral, roedd eraill yn cwestiynu perthnasedd y cwestiwn ymgynghori i rai nodweddion gwarchodedig, megis rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol. Serch hynny, roedd y mwyafrif yn cytuno y byddai gweithredu gofalus a monitro parhaus yn hanfodol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw grŵp dan anfantais.

Er mwyn lliniaru risgiau posibl a gwella canlyniadau cadarnhaol, cafodd ystod o fesurau eu hargymell gan ymatebwyr. Roedd y rhain yn cynnwys gorfodi fformatau hygyrch ar gyfer pob cyhoeddiad digidol (e.e. print bras, sain, hawdd ei ddeall), sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un fath â’r Saesneg, darparu cyfieithiadau mewn ieithoedd eraill a siaredir yn gyffredin a chyflwyno crynodebau mewn iaith glir. Awgrymwyd cymorth ariannol a thechnegol i ddarparwyr bach hefyd, ynghyd â chanllawiau clir a thempledi i gefnogi cydymffurfiaeth.

Yn gryno, er bod croeso cyffredinol i'r cynigion oherwydd eu potensial i wella tryloywder a chefnogi cydraddoldeb, roedd ymatebwyr yn pwysleisio pwysigrwydd hygyrchedd, cynhwysiant digidol a gweithredu cyfrannol. Roedd ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid, yn enwedig y rhai o grwpiau gwarchodedig, yn hanfodol i sicrhau canlyniadau teg ar draws y sector.

**Dadansoddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae rhai o'r materion a godwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn wedi cael sylw mewn mannau eraill yn yr adroddiad cryno ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, felly nid ydym yn eu hailadrodd yma.

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r adborth ar effeithiau posibl y cynigion, gan gynnwys ar unigolion a grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig. Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion ar y cyfan, gan dynnu sylw at fanteision megis mwy o dryloywder ac atebolrwydd a mynediad at wybodaeth gyson am wasanaethau gofal cymdeithasol rheoleiddiedig. Mae'r canlyniadau hyn yn cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan hyrwyddo dewis gwybodus, annibyniaeth a hyder y cyhoedd.

Mae fformatau hygyrch ar gael yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau presennol. Mae hyn yn cynnwys cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a safonau hygyrchedd perthnasol.

Fel y nodwyd yn yr ymateb i gwestiwn 1, rydym wedi nodi'r adborth am gydymffurfio â safonau hygyrchedd. Mae AGC yn mynd i'r afael â'r mater hwn a bydd yn diwygio ei system ar-lein a'i chanllawiau gweithredol yn unol â hynny. Nid yw'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr lunio a chyhoeddi crynodebau hawdd eu defnyddio ochr yn ochr â'u datganiadau blynyddol, ond gallant wneud hynny os dymunant. Yn fwy cyffredinol, mae'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd dan Ddeddf 2016 yn nodi y dylai darparwyr gwasanaethau sicrhau bod gwybodaeth a chymorth perthnasol i unigolion ddeall y dewisiadau sydd ar gael iddynt, mewn ffurf sy'n hygyrch i'r unigolyn ac sy'n addas i'w oedran a'i lefel o ddealltwriaeth.

Nid ydym yn bwriadu diwygio'r cynigion mewn ymateb i'r adborth ar y cwestiwn ymgynghori hwn.

**Cwestiwn 6. Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol unrhyw un o'r cynigion ar yr iaith Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.**

**Yn eich barn chi, a oes cyfleoedd i hybu unrhyw effeithiau cadarnhaol?**

Cafwyd sawl safbwynt amrywiol i'r cwestiwn hwn, er bod thema gyffredin yn codi: er na fydd y cynigion yn newid arferion cyfredol yn sylweddol, maent yn cynnig cyfle gwerth chweil i atgyfnerthu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig yn y sector gofal.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai'r effaith yn niwtral neu'n ddibwys, yn enwedig lle mae arferion dwyieithog eisoes wedi hen ennill eu plwyf.

Fodd bynnag, roedd eraill yn poeni bod y cynigion yn trin ystyriaethau’r Gymraeg fel eilbeth, er gwaethaf y rhwymedigaethau cyfreithiol o dan Safonau'r Gymraeg, gan arwain at ddull Saesneg yn ddiofyn. Roedd galwad clir i'r cynigion wneud mwy i gynnal yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. Yn benodol, roedd y gofyniad i ddarparwyr gyhoeddi datganiadau blynyddol yn

ddwyieithog yn cael ei weld fel cam cadarnhaol a allai hyrwyddo gwelededd a hygyrchedd y Gymraeg mewn lleoliadau gofal, gan atgyfnerthu hunaniaeth ddiwylliannol a chydraddoldeb ieithyddol.

Tynnodd ymatebwyr sylw at heriau ymarferol hefyd, yn enwedig i ddarparwyr llai. Cyfeiriwyd at adnoddau ariannol a staffio cyfyngedig, diffyg arbenigedd cyfieithu mewnol a phwysau amser fel rhwystrau i lunio dogfennau dwyieithog o'r radd flaenaf. Heb gefnogaeth ddigonol na digon o amser, mae perygl y gallai fod diffyg blaenoriaeth i gynnwys Cymraeg neu fod cynnwys o'r fath yn cael ei gyflwyno'n wael, gan danseilio bwriad y cynigion.

Pwysleisiodd rhai ymatebwyr bwysigrwydd monitro cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg er mwyn annog defnydd cyson o'r Gymraeg ar draws gwasanaethau. Roedd eraill yn gweld yr ymgynghoriad ei hun fel cyfle i hyrwyddo'r defnydd technegol o'r Gymraeg, yn enwedig mewn hyfforddiant a seminarau, i fynd i'r afael â gwahaniaethau ieithyddol a chefnogi datblygiad proffesiynol.

Er nad oedd ychydig o'r ymatebwyr wedi mynegi unrhyw farn am y Gymraeg, nac yn ystyried ei defnydd fel dewis personol, y farn gyffredinol oedd y gallai'r cynigion gael effaith gadarnhaol, ar yr amod eu bod yn cael eu gweithredu gyda gofal, hyblygrwydd a digon o gefnogaeth. Roedd y potensial i gryfhau arferion dwyieithog a hyrwyddo cydraddoldeb ieithyddol yn cael ei gydnabod yn eang, ond bydd llwyddiant yn dibynnu ar sicrhau bod gan ddarparwyr ddigon o adnoddau i fodloni'r gofynion heb gyfaddawdu ar ansawdd na hygyrchedd.

**Dadansoddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru:**

O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol gyhoeddi dogfennau yn Gymraeg a Saesneg. Pan fydd y sefydliadau hyn yn darparu gwasanaeth rheoleiddiedig, bydd hyn yn cynnwys eu datganiadau blynyddol. Mae gan ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig eraill yr opsiwn i gyhoeddi eu datganiadau blynyddol naill ai'n Saesneg yn unig, yn Gymraeg yn unig, neu yn y ddwy iaith.

Nid ydym yn bwriadu diwygio'r cynigion mewn ymateb i'r adborth ar y cwestiwn ymgynghori hwn.

**Cwestiwn 7. Yn eich barn chi, a oes modd llunio neu newid unrhyw un o'r cynigion er mwyn:**

- **sicrhau effeithiau cadarnhaol neu ragor o effeithiau cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu**
- **lliniaru unrhyw effeithiau negyddol o ran defnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

Cafwyd ymatebion cymysg i'r cwestiwn hwn. Er bod rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai'r cynigion yn cael effaith niwtral, nododd eraill gyfleoedd clir i gryfhau'r dull

gweithredu, i hyrwyddo cynhwysiant ieithyddol a hunaniaeth ddiwylliannol, a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Roedd sawl un yn poeni am y diffyg eglurder ynglŷn â sut y byddai gofynion iaith Gymraeg yn cael eu monitro neu eu gorfodi. Heb fecanweithiau cydymffurfio diffiniedig, mae perygl y gallai arwain at danseilio gweledeedd a defnydd y Gymraeg mewn gwasanaethau gofal. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at bwysigrwydd ymwreiddio ystyriaethau Cymraeg yn y fframwaith rheoleiddio, gyda metrigau a phrosesau gorfodi clir i sicrhau cydraddoldeb.

Gwnaed sawl awgrym ymarferol i wella effaith gadarnhaol y cynigion. Roedd y rhain yn cynnwys gofyn am grynodeb Cymraeg ym mhob datganiad, darparu templedi dwyieithog a chymorth cyfieithu i leddfu beichiau gweinyddol a chynnig amserlenni graddol neu estynedig i roi digon o amser i ddarparwyr gydymffurfio â'r gofynion. Roedd annog y defnydd o'r Gymraeg mewn cyfathrebu ehangach – y tu hwnt i'r gofynion gofynnol – hefyd yn cael ei ystyried yn ffordd o hyrwyddo cynhwysiant ieithyddol a normaleiddio ei defnydd ar draws y sector.

Roedd un awdurdod lleol wedi casglu safbwyntiau ei staff perthnasol a darparwyr annibynnol yn ei ardal, a oedd yn credu'n gryf y dylai pob darparwr yng Nghymru – nid awdurdodau lleol neu gyrff cyhoeddus yn unig – gyhoeddi eu datganiadau yn Gymraeg a Saesneg. Cytunodd rhai ymatebwyr eraill y gallai rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i ddatganiadau blynyddol gael eu cyflwyno a'u cyhoeddi'n ddwyieithog.

Pwysleisiodd rhai ymatebwyr yr angen i AGC chwarae rôl fwy gweithredol wrth gefnogi cyhoeddi dwyieithog. Gallai hyn gynnwys cynnig templedi Cymraeg swyddogol neu wasanaethau cyfieithu, yn enwedig ar gyfer darparwyr llai nad oes ganddynt yr adnoddau i fodloni gofynion dwyieithog yn annibynnol. Byddai cefnogaeth o'r fath yn helpu i sicrhau bod fersiynau Cymraeg a Saesneg o ddogfennau yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd ac i safon gyson.

Ar y cyfan, mae'r ymatebion yn awgrymu y gellid cryfhau'r cynigion drwy orfodi cyhoeddiadau dwyieithog, cynnig cymorth ymarferol i ddarparwyr ac ymwreiddio ystyriaethau Cymraeg yn fwy cadarn o fewn y fframwaith rheoleiddio. Byddai'r mesurau hyn yn helpu i hyrwyddo cydraddoldeb ieithyddol a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau gofal.

**Dadansoddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo a'i gwarchod o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018. Yn unol â'r gofynion hyn, rhaid i wasanaethau wneud Cynnig Rhagweithiol drwy ddarparu gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol, fel y gall pobl gael mynediad atynt heb ofyn, gan sicrhau cydraddoldeb a pharch at ddewis iaith.

Mae AGC yn chwarae rôl bwysig wrth fonitro a gorfodi gofynion iaith Gymraeg o fewn gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant. Mae AGC yn sicrhau bod ffurflenni, dogfennau canllawiau a'r rhan fwyaf o gyhoeddiadau ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Wrth gofrestru, mae AGC yn cadarnhau iaith ddewisol y darparwr ac yn gwirio hyn drwy gasglu data blynyddol. Mae'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau

gofal cymdeithasol gynnwys gwybodaeth am eu darpariaeth Gymraeg yn eu Datganiad o Ddiben, ac mae AGC yn monitro hyn fel rhan o'i phrosesau cofrestru ac arolygu.

Nid yw'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr gwasanaethau gyflwyno a chyhoeddi datganiadau blynyddol yn Gymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, mae ystyriaethau iaith Gymraeg wedi'u hymwreiddio yn y fframwaith rheoleiddio drwy ofynion presennol a goruchwyliaeth AGC.

Mae ystod eang o gymorth i ddarparwyr i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg eisoes ar waith. Mae AGC yn darparu templedi dwyieithog, gan gynnwys ar gyfer y datganiad blynyddol, a chanllawiau i helpu darparwyr i gyflawni eu rhwymedigaethau.

Roedd y papur ymgynghori yn defnyddio fformat safonol Llywodraeth Cymru.

Nid ydym yn bwriadu diwygio'r cynigion mewn ymateb i'r adborth ar y cwestiwn ymgynghori hwn.

**Cwestiwn 8. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, megis unrhyw oblygiadau ymarferol i'w hystyried gan ddarparwyr gwasanaethau, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.**

Mae rhai o'r materion a godwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn wedi cael sylw mewn mannau eraill yn yr adroddiad cryno ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, felly nid ydym yn eu hailadrodd yma. Mae llawer o'r materion a godwyd mewn ymateb i'r cwestiwn ymgynghori hwn y tu hwnt i gwmpas y rheoliadau drafft.

Tra'r oedd un ymatebydd yn croesawu'r gofyniad i ddarparwyr gyhoeddi datganiadau blynyddol ar eu gwefannau eu hunain, dywedodd nad yw'n glir sut fydd AGC yn monitro cydymffurfiaeth. Bydd gorfodi yn dibynnu ar a oes gan AGC ddigon o allu a seilwaith i nodi achosion o ddiffyg cydymffurfio ac ymateb yn gyflym i hynny.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Bydd AGC yn monitro cydymffurfiaeth â'r gofynion yn y rheoliadau drafft pan fyddant yn dod yn rhan o'r fframwaith rheoleiddio.

Yn achos sefydliadau sy'n rhedeg llawer o gartrefi ledled Cymru a'r DU, awgrymodd un ymatebydd y gellid cyhoeddi datganiadau blynyddol gyda'i gilydd mewn un ddogfen yn hytrach na llwytho ffeiliau unigol lluosog.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Mae'r gofynion presennol eisoes yn darparu ar gyfer paratoi a chyflwyno un datganiad blynyddol sy'n cynnwys gwybodaeth am yr holl wasanaethau mae'r darparwr gwasanaethau wedi'i gofrestru i'w darparu yng Nghymru.

Hefyd, argymhellwyd y dylid cysoni datganiadau blynyddol AGC ag adroddiadau Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn lleihau dyblygu a lleihau pwysau gweinyddol. Ystyriwyd bod canllawiau clir a thempledi safonedig yn hanfodol i gefnogi cydymffurfiaeth gyson. Codwyd pryderon am ddiffyg mecanwaith ffurfiol ar gyfer rhannu data rhwng AGC a Gofal Cymdeithasol Cymru. Roedd y bwlch hwn yn cael ei

weld fel rhwystr i oruchwylio a chynllunio strategol cydgysylltiedig. Hefyd, nododd ymatebwyr nad yw rôl AGC wrth fonitro ac ymateb i ddata cyhoeddedig wedi'i diffinio'n glir, a allai arwain at golli cyfleoedd i ymyrryd yn gynnar a gwella gwasanaethau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Mae materion sy'n ymwneud â heriau casglu data, yn enwedig cysoni a rhannu data rhwng AGC a Gofal Cymdeithasol Cymru, y tu hwnt i gwmpas y rheoliadau hyn. Fodd bynnag, mae AGC a Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i uno eu dau gasgliad data er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ar ddarparwyr gofal cymdeithasol a gwella ansawdd data'r gweithlu. Disgwylir un broses casglu data o 2026 ymlaen.

Mynegwyd pryderon am gostau cyhoeddi.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**: Nid ydym yn rhagweld y bydd costau cyhoeddi yn sylweddol. Mae cyhoeddi dogfen PDF ar wefan sy'n bodoli'n barod fel arfer yn costio ychydig neu ddim cost ychwanegol, gan fod y brif gost yn ymwneud â chynnal a chadw'r wefan yn hytrach na lanlwytho dogfennau sy'n diwallu anghenion darparwyr.

Nid ydym yn bwriadu diwygio'r cynigion mewn ymateb i'r adborth ar y cwestiwn ymgynghori hwn.

## Y camau nesaf

Bydd Rheoliadau Datganiadau Blynyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026 a Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2026 yn cael eu gosod gerbron y Senedd ym mis Ionawr 2026.

Yn amodol ar y rhai sy'n ymwneud â datganiadau blynyddol yn cael eu cymeradwyo gan Senedd Cymru, a'r rhai sy'n ymwneud â chofrestru ddim yn cael eu diddymu gan Senedd Cymru, byddant yn dod i rym ar 1 Ebrill 2026.

Bydd yr holl ddogfennau drafft ar gael ar wefan y Senedd: Is-ddeddfwriaeth (senedd.cymru).

## Atodiad A - Rhestr o'r ymatebwyr

Rhestr o’r ymatebwyr a lenwodd y ffurflen ac a oedd yn fodlon i ni rannu eu manylion:

1. Bethany Home Ltd.
2. Cyngor Caerdydd
3. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
4. Cyngor Sir y Fflint
5. Undeb GMB – Cymru a De-orllewin Lloegr
6. Cyngor Gwynedd
7. HC-One Wales
8. Gofal Cymdeithasol Cymru
9. Stella Maris Convent and Care Home
10. Tofiat Care Ltd.
11. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
12. Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Fe wnaeth pedwar ymateb yn ddienw, ac nid oedd pedwar yn fodlon caniatáu inni rannu eu manylion.